

## **CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**

Adroddiad o gyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 26ain Mehefin, 2017, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.00 y.h. hyd 7.30 y.h.

Presennol: Y Cynghorydd Carys E. Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Glyn Roberts, Harry Richards, Michael Strain

Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Glenys Williams

### 28. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD A DERBYN SWYDD**

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod ac arbennig Elin Hughes.

**Bu iddi** arwyddo Datganiad Derbyn Swydd a'i bod yn parchu'r Côd Ymddygiad.

### 29. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ffurflen.

### 30. **ARCHWILIO'R CYFRIFON**

**Cyflwynwyd** adroddiad Mr. John D. Roberts, yr Archwiliwr Mewnol, fod popeth mewn trefn. Anfonwyd copi o adroddiad Mr. Roberts, y ffurflen flynyddol, llythyrau ynglyn a gwerthu tir yn Llangwnnadr ynghyd a chopi o lythyr i Mr. Roberts dyddiedig 14eg Mehefin, gyda'r rhaglen. Yn y Pwyllgor dosbarthwyd yr ohebiaeth fu gyda'r BDO.

#### **Penderfynwyd**

(a) Derbyn y cyfrifon fel y'i cyflwynwyd.

(b) Ymateb i gwestiynau ar y ffurflen "Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan1) – 'cywir' ymhob bocs.

(c) Awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio fod y Cyngor wedi cymeradwyo'r cyfrifon.

(ch) Rhoi cyfle i'r aelodau edrych drwy'r papurau ddsbarthwyd ar y noson ac ymdrin a'r cyfryw yn y cyfarfod nesaf.

### 31. **CAIS CYNLLUNIO**

**Cyflwynwyd** cais C17/0535/32/LL – adeiladu estyniad ochr ar safle adeiladau allanol, patio gardd, to newydd dros ran o adeilad allanol ac adeiladu modurdy ar safle blaenorol – Tyddyn Du, Sarn.

**Penderfynwyd** cefnogi'r cais.

